

Gwrandawriad cyn penodi

Yr ymgeisydd a ffafrir ar gyfer Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru

Mawrth 2023

1. Cyflwyniad

Gwrandawriadau cyn penodi

1. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amrywiaeth o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae'r penodiadau hyn yn uchel eu proffil ac yn gyfle i lunio a llywio llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl Cymru yn eu defnyddio. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penodiadau cyhoeddus rheoleiddiedig yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus**. Mae'r **Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus** yn gyfrifol am roi sicrwydd annibynnol bod penodiadau yn cydymffurfio â'r Cod.

2. Cytunodd Gweinidogion Cymru a'r Senedd i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y gwaith o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno. Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffafrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau



hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.

3. Mae rhestr o'r penodiadau gweinidogol a all fod yn destun gwrandawiadau cyn penodi wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Mae Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i gynnwys ar y rhestr honno.

Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru

4. Sefydlwyd Cyngor y Celfyddydau drwy Siarter Frenhinol ym 1994. Mae Cyngor y Celfyddydau yn cael ei ariannu'n bennaf gan gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn elusen gofrestredig sy'n ddarostyngedig i'r Gyfraith Elusennau, ac yn un o'r pedwar Dosbarthwr Loteri yng Nghymru. Amcanion y Cyngor fel y nodir yn ei Siarter Frenhinol yw:

- a. i ddatblygu a gwella gwybodaeth am y celfyddydau, eu deall a'u hymarfer;
- b. i gynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- c. i gynghori a chydweithredu â Llywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol;
- d. i gyflawni'r amcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

5. Mae'r Cadeirydd yn atebol i Weinidog(ion) Llywodraeth Cymru a gall Senedd Cymru ei ddwyn i gyfrif hefyd. Rhaid i gyfathrebu rhwng y Cyngor a'r Gweinidog, yng nghwrs arferol busnes, ddigwydd drwy'r Cadeirydd. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod aelodau eraill y Cyngor yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebu o'r fath. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisiau a chymau gweithredu'r Cyngor yn ategu polisiau strategol ehangach y Gweinidog, a bod materion y Corff yn cael eu cynnal gyda chywirdeb. Lle y bo'n briodol, rhaid i'r Cadeirydd wneud trefniadau i bolisiau a chymau gweithredu gael eu cyfleu a'u lledaenu ar draws y Corff.

6. Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru **gynllun corfforaethol** – yn mynd o 2018 i 2023.

7. Mae gwybodaeth fanwl am y rôl, ynghyd â manyleb y person ar gyfer y rôl, ar gael yn y pecyn gwybodaeth **a gyhoeddwyd ar gyfer ymgeiswyr am y swydd** ym mis Tachwedd 2022.

2. Y broses recriwtio

8. Cafodd rôl Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru ei hysbysebu ar wefannau Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet rhwng 14 Tachwedd 2022 a 3 Ionawr 2023. Cafodd y dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau ei ymestyn o 12 Rhagfyr 2022 i 3 Ionawr 2023 er mwyn annog rhagor o geisiadau.

9. Hyrwyddwyd y swydd wag trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cyngor y Celfyddydau. At hynny, anfonodd Llywodraeth Cymru fanylion am y penodiad trwy restrau rhanddeiliaid a gedwir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus a chyhoeddodd y swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwefan Swyddfa Cabinet y DU.

10. Hyrwyddwyd a hysbysebwyd y swydd wag trwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol ac yn y cyfryngau a restrir isod:

- Safle Swyddi
- Golwg 360
- Diversity Jobsite Network
- Fish4jobs (JobsWales)
- Guardian
- Arts Professional
- Arts Jobs

11. Aelodau'r Panel Cyngori ar Asesu oedd:

- Jason Thomas - Cyfarwyddwr Celfyddydau, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru
- Helgard Krause - Prif Weithredwr, Cyngor Llyfrau Cymru
- Aaqil Ahmed – Uwch-aelod o'r Panel Annibynnol

12. Cafwyd cyfanswm o 15 cais am y rôl newydd. Cynhaliwyd y cyfarfod sifftio ar 19 Ionawr 2023. Dewiswyd chwe ymgeisydd i'w cyfweld, ond tynnodd dau ohonynt eu cais yn ôl cyn i'r cyfweliadau gael eu cynnal. Cynhaliwyd sesiwn gyda rhanddeiliaid rhwng 9 a 10 Chwefror 2023 lle gofynnwyd i ymgeiswyr baratoi i

rannu eu safbwyntiau personol ar pwnc (uchafswm o 10 munud), ac yna hwyluso'r drafodaeth. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar 14 Chwefror 2023. Roedd y Panel Cyngori ar Asesu o'r farn bod dau ymgeisydd y gellir eu penodi.

3. Yr ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru

13. Yr ymgeisydd a ffafrir gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip ar gyfer rôl Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru yw Margaret (Maggie) Russell.

14. Dylid nodi bod gwrthdaro buddiannau wedi'i ddatgan gan yr ymgeisydd a ffafrir ar adeg y cais. Datganodd Maggie Russell mai ei gŵr, Dr. Aled Eirug, yw cadeirydd y Coleg Cymraeg, y corff addysg uwch ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg, a bod ei merch, Holly Kalo, yn gweithio fel gweinyddwr i wyl ffilmiau LGBTQ IRIS. Roedd y Panel Cyngori ar Asesu o'r farn nad oedd y datganiad hwn yn fater o wrthdaro buddiannau.

15. Mae gan Maggie Russell dros 35 mlynedd o brofiad ar bob lefel o'r celfyddydau, treftadaeth ddiwylliannol a'r diwydiannau creadigol mewn cydestun Cymreig, y DU, ac yn rhyngwladol. Cyn hyn, mae hi wedi bod yn Bennaeth Drama ac yn aelod o uwch dîm rheoli BBC Cymru, lle bu hefyd mewn swyddi fel Pennaeth Talent, Cadeirydd y Pwyllgor Hyfforddiant, a Phennaeth Amrywiaeth ar y Sgrin. Mae Margaret hefyd wedi gweithio'n helaeth fel cynhyrchydd a chynhyrchydd gweithredol ar nifer o raglenni gan gynnwys Keeping Faith, Pobol y Cwm, Belonging, a High Hopes. Graddiodd Maggie o Brifysgol Warwick ym 1984 gyda gradd mewn Astudiaethau Theatr ac yn fwy diweddar (2012) cwblhaodd hyfforddiant Proffesiynol Ôl-raddedig fel Seicotherapydd.

4. Y gwrandawriad cyn penodi

Cyn y gwrandawriad

16. Cyn y gwrandawriad cyn penodi, darparodd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru **friff** i'r Pwyllgor yn crynhoi'r broses recriwtio ac yn nodi **data amrywiaeth** yr ymgeiswyr a wnaeth gais am y swydd, a chopi o'r **pecyn gwybodaeth** a ddarparwyd i ymgeiswyr a wnaeth gais am y swydd. Hefyd,

cafodd ffurflen gais, CV a datganiad personol yr ymgeisydd a ffafrir eu rhannu'n breifat â'r Pwyllgor.

17. Gofynnodd y Pwyllgor i'r ymgeisydd a ffafrir gwblhau **holiadur byr** cyn y gwrandawriad, er mwyn llywio cwestiynau'r Aelodau.

Y gwrandawriad

18. Cynhaliwyd y gwrandawriad ddydd Mawrth 14 Mawrth 2022. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i'r ymgeisydd a ffafrir ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni rôl Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru. Edrychodd y cwestiynau hyn yn fanylach ar y wybodaeth a ddarparwyd ganddi yn ei holiadur ysgrifenedig, gan ymdrin â materion sy'n cynnwys:

- yr hyn a'i hysgogodd i wneud cais am rôl Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru;
- ei gwybodaeth a'i phrofiad;
- mesur llwyddiant ei gwaith yn y dyfodol fel Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru;
- annibyniaeth y rôl ar Lywodraeth Cymru a chraffu.

19. Mae trawsgrifiad llawn o'r gwrandawriad ar gael ar lein.¹

5. Safbwynt y Pwyllgor

20. Yn unol â'r **canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi** y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd, rôl y Pwyllgor yw nodi ei farn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru.

21. Roedd angerdd amlwg Maggie Russell am y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru wedi creu argraff fawr arnom, yn enwedig ei brwdfrydedd dros y celfyddydau mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r disgrifiad swydd yn nodi bod Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Weinidog(ion) Llywodraeth Cymru a gall Senedd Cymru ei ddwyn i gyfrif hefyd. Mae hyn yn cynnwys cael ei ddwyn i gyfrif gan y Pwyllgor hwn. Felly, cawsom ein synnu braidd gan ei diffyg gwybodaeth ynghylch strwythurau a threfniadau gweithio'r Pwyllgor. Fodd

¹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Mawrth 2023

bynag, croesawyd gonestrwydd Maggie o ran y mater hwn a'i pharodrwydd i ddysgu.

22. Yn seiliedig ar ei hatebion ysgrifenedig i holiadur y Pwyllgor a'i hymatebion yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, ni wyddwn am unrhyw reswm pam na ddylai Maggie Russell gael ei phenodi fel Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru.

23. Yn amodol ar iddi gael ei phenodi gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, rydym yn edrych ymlaen at wahodd yr ymgeisydd a ffafrir ar gyfer rôl y Cadeirydd i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol fel rhan o'r rhaglen barhaus o graffu ar waith comisiynwyr statudol a chyrrff cyhoeddus sy'n dod o fewn ein cylch gwaith.

24. Yn olaf, roeddem yn siomedig mai dim ond un cais oedd gan rywun o gefndir ethnig lleiafrifol. Rydym eisoes wedi codi pryderon ynghylch amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yn ein **hadroddiad** ar benodiad Cadeirydd Chwaraeon Cymru. Yn ei **hymateb** i'r adroddiad hwnnw, gwnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod fod angen gwneud mwy i wella amrywiaeth ar draws pob penodiad cyhoeddus yng Nghymru, a bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'i Uned Cyrff Cyhoeddus i gyflawni hyn. Byddem yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar hyn yn brydlon a rhoi diweddariad ar sut mae'n bwriadu gwella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

25. Byddwn ni hefyd yn rhannu ein hadroddiad gyda Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd i lywio ei **ymchwiliad** i Benodiadau Cyhoeddus.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailedrych ar frys ar yr hyn y gall ei wneud i wella amrywiaeth ethnig ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.